




BANK OF ENGLAND

Un genhadaeth

Cenhadaeth y Bank of England yw hyrwyddo lles pobl y Deyrnas Unedig trwy gynnal sefydlogrwydd ariannol a chyllidol.

Cenhadaeth y Bank of England yw hyrwyddo lles pobl y Deyrnas Unedig, yn union fel y bu yn Siarter gwreiddiol y Banc ym 1694, a ddatganodd:



'Now know ye, That we being desirous to promote the public good and benefit of our people...'
[‘Gwybyddwch, Ein bod ni, sy'n dymuno hyrwyddo lles y cyhoedd a budd ein pobl...’]

Fel a benderfynwyd gan y Senedd, bydd y Banc yn gwneud hyn trwy gynnal sefydlogrwydd ariannol a chyllidol.

Amcan polisi ariannol y Banc yw cyflenwi sefydlogrwydd prisiau ac, yn amodol ar hynny, cefnogi amcanion economaidd y Llywodraeth gan gynnwys y rhai hynny ar gyfer twf a chyflogaeth. Mae sefydlogrwydd ariannol yn golygu prisiau sefydlog a hyder yn yr arian. Diffinir prisiau sefydlog gan darged chwyddiant y Llywodraeth, yr hyn mae'r Banc yn ceisio gwrdd ag ef drwy'r penderfyniadau a ddirprwir i'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC), gan esbonio'r penderfyniadau hynny'n dryloyw ac yn eu gweithredu'n effeithiol yn y marchnadoedd arian.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC), gan gynnwys diffinio'r targed chwyddiant, yn cael ei ailgadarnhau bob blwyddyn gan y Canghellor.

Mae sefydlogrwydd ariannol yn galw am lif effeithlon o arian yn yr economi a hyder mewn sefydliadau ariannol.

Dilynnir hyn drwy:

- gweithrediadau ariannol y Banc, gan gynnwys fel y benthyciwr pan fetha popeth arall;
- penderfyniadau'r Pwyllgor Polisi Ariannol (FPC);
- rheoleiddio darbodus o sefydliadau ariannol gan y PRA;
- rôl y Banc fel awdurdod datrys; a
- goruchwyllo a rheoleiddio seilwaith allweddol ynghylch talu, clirio a setlo gan y Banc.

Mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol (FPC) yn gweithredu yn erbyn risgiau systematig er mwyn diogelu a gwella cadernid system ariannol y DU. Mae gan y Pwyllgor amcan eilaidd i gefnogi polisi ariannol y Llywodraeth.

Mae'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) yn gyfrifol am oruchwyllo oddeutu 1,700 o fanciau, cymdeithasau adeiladu, undebau credyd, yswirwyr a chwmnïau buddsoddi mawr. Mae gan y PRA amcan cyffredinol i hyrwyddo diogelwch a chadernid y cwmnïau hyn ac - yn benodol ar gyfer yswirwyr - i gyfrannu at sicrhau amddiffyniad ar gyfer deiliaid polisïau

Fodd bynnag, er eu bod mor allweddol, nid yw sefydlogrwydd ariannol a chyllidol yn derfynau ynddynt eu hunain, ond yn rhag-amodau angenrheidiol ar gyfer cyflenwi lles y cyhoedd. Oherwydd hynny, mae ymrwymiad blaenorol y Banc i ddau bwrpas craidd wedi'i aildrefnu'n genhadaeth sengl i gynnwys popeth sy'n pwysleisio'r cyfraniad mae cyflenwi cyfrifoldebau statudol y Banc yn ei wneud at y nod derfynol: Cenhadaeth y Bank of England yw hyrwyddo lles pobl y Deyrnas Unedig trwy gynnal sefydlogrwydd ariannol a chyllidol.